

Strategaeth Ddata'r Asiantaeth Safonau Bwyd

Cynnwys

Ein Gweledigaeth Data.....	2
Pam mae angen Strategaeth Ddata arnom ni	3
Crynodeb o'r Strategaeth Ddata.....	6
Egwyddorion Data	8
Canlyniadau Data Strategol	9
Nodau'r Strategaeth Ddata.....	10
Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Ddata.....	11


Ein Gweledigaeth Data

1. Yn yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB), rydym ni'n cydnabod gwerth data: ein hunain a'r hyn sydd gan bartïon eraill: adrannau'r llywodraeth, diwydiant, academia, cyrff anllywodraethol, cymdeithas ddinesig a chyfryngau cymdeithasu. Rydym ni'n cydnabod pŵer ac addewid data i wella canlyniadau ar gyfer cymdeithas mewn sawl maes trwy gynyddu effeithlonrwydd, tryloywder a mynediad at wybodaeth. Rydym ni'n cydnabod y gall data ein helpu ni i ddiogelu'r cyhoedd a rhoi iddynt yr wybodaeth orau sydd ar gael am ddiogelwch bwyd ym mhob rhan o'r system fwyd.
2. Rydym ni'n ystyried mai data yw galluogydd sylfaenol ein gallu i gyflawni ein canlyniadau strategol allweddol mewn diogelwch bwyd a gwybodaeth gyhoeddus.
3. Yn yr ASB, rydym ni felly'n ymrwymo i ddefnyddio data i'r eithaf trwy gyrraedd y safon uchaf bosibl o ran rheoli gwybodaeth a data, trwy ddod yn sefydliad sy'n cael ei yrru gan ddata a thrwy hyrwyddo dulliau arloesol o weithio gyda data.
4. Rydym ni wedi creu'r Strategaeth Ddata hon i ddisgrifio sut y byddwn ni'n gweithio gyda data – y galluogwr strategol allweddol hwn – i gyflawni canlyniadau strategol ehangach ein sefydliad ac i wneud y mwyaf o effaith ein holl weithgarwch.
5. Mae'r Strategaeth Ddata'n cynnwys Ein Gweledigaeth Data (yr adran hon), y datganiad problem sy'n esbonio Pam ein bod ni angen Strategaeth Ddata, ein Hegwyddorion Data, ein Canlyniadau Data Strategol, Nodau'r Strategaeth Ddata a Chynllun Gweithredu'r Strategaeth Ddata – sy'n cynnwys y camau gweithredu mwy penodol sydd eu hangen i gyflawni pob un o Nodau'r Strategaeth Ddata.

Pam mae angen Strategaeth Ddata arnom ni

7. Yn yr ASB, rydym ni wedi cydnabod pwysigrwydd data ar gyfer ein sefydliad ac wedi cychwyn ar y daith i gynyddu ein dealltwriaeth o sut i ddefnyddio data orau i gyflawni ein nodau a'n anghenion strategol. Rydym ni bellach yn y broses o adeiladu gallu uwch a chynaliadwy ar gyfer rheoli gwybodaeth a data.
8. Yn ystod y misoedd diwethaf, rydym ni wedi datblygu ein hymwybyddiaeth o faterion data yn sylweddol ac wedi adeiladu sylfeini cryf ar gyfer rheoli a llywodraethu gwybodaeth. Er bod hyn, ar y cyfan, wedi gwella ein gallu data, mae hefyd wedi ein gwneud yn fwy ymwybodol o lawer o'r problemau gyda'n data sy'n parhau oherwydd etifeddiaeth hen dechnolegau, prosesau a dulliau.

Ein hecosystem data (*Saesneg yn unig*)



9. Mae sawl rhan o'n hecosystem data angen ei gwella yn sylweddol. Mae ansawdd gwael y data yn y casgliad yn golygu ein bod ni'n dechrau o'r waelodlin isel gyda'r ansawdd data isel ac yna'n parhau trwy ei gylch oes gyfan. Mae hyn yn lleihau'r defnydd o ddata gan nad yw pobl yn ymddiried ynddo, sy'n golygu costau prosesu data uwch a mwy o ymdrech i gasglu a rheoli data. Mae llawer o'r gwerth yna'n cael ei golli, nid yw data'n darparu llawer o'i gymharu â'r buddsoddiad ac nid ydym wedi alinio ag arfer gorau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

10. Defnyddir ffynonellau data anghyson, anghyflawn a dyblyg i wneud penderfyniadau – a allai effeithio'n negyddol ar ansawdd y penderfyniadau hynny a chyflwyno risg i'r busnes a'r enw da.
11. Gyda llawer o ddigwyddiadau gwleidyddol pwysig a gwelededd uchel ar y gorwel (e.e. yr holl ddeddfwriaeth a newidiadau polisi sy'n debygol o gyd-fynd ag Ymadawriad y Deyrnas Unedig (DU) o'r Undeb Ewropeaidd (UE)) mae'n hanfodol bwysig sicrhau bod ansawdd ein penderfyniadau sefydliadol ar ei uchaf.
12. Yn ogystal â risgiau, mae ansawdd data gwael hefyd yn achosi i ni gollu cyfleoedd (e.e. mewn perthynas â Rheoleiddio Ein Dyfodol, gwyliadwriaeth a throseddau bwyd). Rydym ni'n llai effeithiol nag y gallem fod fel arall, gan ein bod ni'n cael ein hatal rhag defnyddio'r data presennol i'w gapasiti llawn ac o allu manteisio ar ddefnyddio ffynonellau data newydd (e.e. Rhyngrwyd y Pethau) a dulliau data newydd (megis Gwybodaeth (*Intelligence*) Artiffisial, Dysgu Peiriannol ac ati) i'w llawn botensial.
13. Nodwyd heriau data tebyg yn yr Adroddiad Darganfod ar gyfer y Strategaeth TG a gynhaliwyd gan Rainmaker yn 2016.
14. Mae'n bwysig cydnabod y bydd angen ymgymryd â'r gwaith a ddisgrifir yn y Strategaeth Ddata ar y cyd ac mewn aliniad ag adran TG fewnol yr ASB a'r darparwyr gwasanaethau TG perthnasol. Bydd yn rhaid i rywffaint o'r ymdrech ganolbwyntio ar ddylunio a datblygu'r isadeiledd technegol cywir i gefnogi datblygiad y gallu data cyffredinol o fewn yr ASB.
15. Mae gan hyn oblygiadau i'r Strategaeth TG o ran y platfformau a'r offer technoleg y bydd angen eu hadeiladu neu eu caffael a'u cefnogi, felly mae angen cynnal trafodaethau agos a pharhaus gyda'r tîm TG mewnol i alinio'r gwaith ar yr isadeiledd data ac i ystyried yr holl ddibyniaethau, cyfleoedd a risgiau cysylltiedig. Mae Adroddiad Darganfod y Strategaeth TG yn tynnu sylw at yr angen am strategaeth ddata feiddgar a blaengar ac yn cydnabod ei heffaith a'i phwysigrwydd o ran cyfeiriad cyffredinol Strategaeth TG yr ASB yn y dyfodol.
16. Bydd angen sicrhau bod adnoddau ychwanegol ar gael ar gyfer y gwaith hwn, gan ei bod yn debygol y bydd yn fwy na'r capasiti 'busnes fel arfer', a hynny o ran amser staff a chyllideb. Mae'n debyg y bydd angen yr adnoddau ychwanegol ar gyfer yr adran TG fewnol a'r tîm Rheoli Gwybodaeth.
17. Am yr holl resymau hyn, mae angen Strategaeth Ddata uchelgeisiol a thrawsnewidiol ar yr ASB. Mae gofyn i'r strategaeth nodi ein hanghenion a'n nodau, i ganolbwyntio ein meddyliau ar y canlyniadau yr ydym am eu cyflawni gan ddefnyddio data ac i ddarparu canllawiau clir ar gyfer ein hymdrechion. Mae angen i ni gytuno ar ein Hegwyddorion Data i hysbysu ein blaenoriaethau a'n penderfyniadau am ein gweithredoedd a'n cynlluniau. Mae gofyn i'r Strategaeth Ddata bwysleisio ein hymrwymiaid, ailddatgan ein nodau a mapio llwybr a chynllun gweithredu clir i gyflawni.
18. Yn olaf, mae gofyn i'r Strategaeth Ddata fod yn adnodd cyfathrebu – i helpu

pawb yn y sefydliad i ddeall gwerth y data a beth y mae'n gallu ei wneud iddyn nhw. Rydym ni'n gobeithio y bydd Strategaeth Ddata sy'n cael ei nodi a'i chyfathrebu'n glir yn ysbrydoli ac yn ysgogi ein cydweithwyr i'n cefnogi ni ac i gymryd rhan yn yr ymdrech i sicrhau bod yr ASB yn cael ei gyrru gan ddata, gan eu gwneud yn fwy ymwybodol o werth data a chyfoethogi eu gwaith eu hunain, gan greu gwerth i'r sefydliad cyfan.

Crynodeb o'r Strategaeth Ddata

20. Mae ein Strategaeth Ddata yn seiliedig ar ein Gweledigaeth Ddata a'n Hegwyddorion Data craidd. Mae'r Strategaeth yn nodi sut y byddwn ni'n gwerthfawrogi ein data a'i reoli i gefnogi canlyniadau busnes yr ASB ac i greu gwerth i'r cyhoedd ac i ni ein hunain.
21. Mae'r Strategaeth Ddata'n mynegi ein bwriad i greu diwylliant data sefydliadol cryf ac i sicrhau bod yr ASB yn cael ei gyrru gan ddata – fel sy'n cael ei nodi yn ein cynllun amcanion sefydliadol o 2016/17 ac yn Adroddiad y Prif Wyddonydd o fis Mawrth 2017.
22. Byddwn ni'n rhoi data ar yr agenda sefydliadol ac yn hyrwyddo llythrennedd data, gwneud penderfyniadau sy'n cael eu gyrru gan ddata ac agweddau positif tuag at ddata. Byddwn ni'n hyrwyddo i uwch reolwyr bod targedau defnyddio data yn rhan o'n mesur perfformiad cyffredinol. Rydym ni'n bwriadu defnyddio dulliau gweledol ac adrodd straeon i hyrwyddo ein llwyddiant gyda data ac i dynnu sylw at gyfleoedd pellach i sicrhau canlyniadau a chanlyniadau cadarnhaol gyda data.
23. Rydym ni'n deall, er mwyn cyflawni'r nodau hyn, bod angen i ni adeiladu gallu data modern o fewn yr ASB a chefnogi ac annog ein Tîm Data i greu mewnwleidiadau hyd yn oed yn fwy pwerus gyda data. Mae angen i ni ddatblygu ein harbenigedd Gwyddor Data ymhellach a dod o hyd i ffyrdd o gynyddu ei heffaith. Mae angen i ni hefyd gynyddu'r llythrennedd data cyffredinol ar draws yr Asiantaeth a rhoi sgiliau i'n gweithlu i ymgysylltu â data a'i ddefnyddio'n fwy effeithiol yn eu gwaith.
24. Mae gofyn i ni sicrhau bod ein data a'n gwybodaeth yn parhau i gael eu llywodraethu'n effeithiol a'u diogelu trwy sicrhau bod ein polisïau, ein prosesau a'n sgiliau yn parhau i fod yn gyfredol ac yn addas at y diben. Ond mae hefyd gofyn i ni arloesi gyda data a chydweithio â'n partneriaid llywodraeth a diwydiant i greu gwell mewnwleidiadau a gwybodaeth. Mae angen i ni barhau i gyhoeddi ein data fel Data Agored, gan ymdrechu i gyflawni ein huchelgais bod y rhan fwyaf o'n data yn cael ei gyhoeddi'n agored ac yn rheolaidd. Bydd hyn yn annog aildefnyddio ein data gan asiantau allanol a gan ein hunain.
25. Er mwyn sicrhau ein bod yn diwallu'r holl anghenion hyn, mae Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Ddata yn creu rhestr o dasgau sefydliadol, gan uno pob elfen o'n gwaith data a'u cysylltu â rhaglen gydlynol i adeiladu llwyfan cryf i weithredu ein Strategaeth Ddata uchelgeisiol a chyflawni canlyniadau sefydliadol ehangach.
26. Mae'r Cynllun Gweithredu yn dangos sut y byddwn ni'n gweithio gyda'n cydweithwyr ar draws yr Asiantaeth i wella dealltwriaeth o'n hanghenion gwybodaeth a sut y byddwn ni'n pensaernïo ac yn adeiladu seilwaith data modern i gwrdd â'n hanghenion presennol ac yn y dyfodol. Mae'r Cynllun Gweithredu yn pennu sut y byddwn ni'n cyfoethogi ein hystâd data trwy ddatblygu ein setiau data ein hunain ac aildefnyddio data dibynadwy o

ffynonellau allanol. Mae'n ailddatgan ein hymrwymiad i brosesu data mewn ffordd gymesur a phriodol – yn unol ag egwyddorion Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, y gyfraith a'n safiad cryf ein hunain ar foeseg data.

27. Mae'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys y rhestr o dasgau technegol, lle byddwn ni'n gweithio gyda'n partneriaid TG (tîm mewnol a chyflenwyr allanol) i adeiladu a gweithredu seilwaith data modern sy'n wydn, yn hyblyg, yn gallu ehangu'n gyflym, ac yn ein galluogi i ddefnyddio technolegau a dulliau data modern i wneud ein sefydliad yn fwy effeithlon.
28. Mae'r Strategaeth Ddata'n dangos sut y byddwn ni'n cryfhau ein harferion data a'n Tîm Data - gwella ein gallu mewn gwyddoniaeth data, pensaernïaeth data, llywodraethu data a disgyblaethau data perthnasol eraill a sicrhau bod gennym ni'r dechnoleg, offer, prosesau a sgiliau i ddarparu gwasanaethau effeithlon a gwaith data perthnasol ar gyfer ein sefydliad, ein partneriaid a'r cyhoedd.
29. Byddwn ni'n parhau i hyrwyddo tryloywder, eirioli Data Agored a hyrwyddo cymunedau cryf o ddefnyddwyr data sydd â diddordeb mewn gweithio gyda ni i greu gwerth o'n data a'i ddefnyddio i gynyddu canlyniadau cadarnhaol i bawb. Yn sgil y nod hwnnw, bydd parhau i gyhoeddi ein data yn rhagweithiol fel Data Agored yn gam naturiol, gan anelu at sicrhau bod y rhan fwyaf o'n data ar gael yn gyhoeddus mewn fformat y gellir ei aildefnyddio.

Egwyddorion Data

31. Mae ein Hegwyddorion Data yn mynegi ein gwerthoedd, ein credoau, ein blaenoriaethau a'n hathroniaeth mewn perthynas â data. Maent yn tanategu popeth a wnawn gyda data ac yn llywio sut rydym ni'n defnyddio data i gyflawni canlyniadau strategol yr Asiantaeth.
32. Mae'r egwyddorion yn cynnwys ein cred bod data yn adnodd trefniadol gwerthfawr y mae'n rhaid ei reoli'n strategol i greu gwerth busnes. Mae ein data wrth galon ein cyfrifoldeb ni i ddiogelu'r cyhoedd ac i roi gwybod iddynt am faterion diogelwch bwyd a materion eraill sy'n ymwneud â bwyd. Rydym ni'n gwneud ymdrech fawr i sicrhau bod pawb yn ymddiried yn ein data.
33. Ein nod yw creu diwylliant data cryf yn ein sefydliad a dod yn 'sefydliad sy'n cael ei yrru gan ddata'. Rydym ar flaen y gad wrth feddwl am foeseg data ac yn credu'n gryf mewn casglu a defnyddio data moesegol, gan barchu gwybodaeth sy'n ymwneud â sefydliadau, unigolion a phopeth yn y canol.
34. Mae ein gweledigaeth o fod yn sefydliad sy'n cael ei 'yrru gan ddata' yn ymwneud â sicrhau bod data ar gael i'w ddefnyddio pan fydd unigolyn neu dîm yn nodi'r angen amdano. Mae prydlondeb yn hynod allweddol. Rydym ni eisiau sicrhau bod mynediad at wybodaeth yn hawdd, yn syth ac yn cael ei gefnogi gan yr adnoddau a'r arbenigedd angenrheidiol. Rydym ni am i gydweithwyr yn yr ASB allu defnyddio'r data y maent yn gweithio ac ef i'w lawn botensial – gyda dealltwriaeth lawn o beth fydd yn ei gefnogi, a beth na fydd yn ei gefnogi.
35. Rydym ni'n anelu at ragoriaeth yn y ffordd yr ydym ni'n rheoli data ac yn ymdrechu i ddatblygu ein gallu data. Rydym ni'n hyrwyddo tryloywder ac effeithlonrwydd ar draws y sector bwyd. Rydym ni'n cyhoeddi llawer o'n data fel Data Agored ac yn gweithio'n rhagweithiol i'w aildefnyddio ac i sicrhau'r gwerth mwyaf ohono, gan annog ein partneriaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat i reoli eu data yn yr un modd ac i weithio gyda ni tuag at ein nodau ar y cyd.

Dyma ein Hegwyddorion Data:

- i. Gwerth
- ii. Ymddiried
- iii. Cyfrifoldeb
- iv. Diwylliant
- v. Moeseg
- vi. Rhagoriaeth
- vii. Data Agored

Canlyniadau Data Strategol

37. Mae ein Canlyniadau Data Strategol yn crynhoi'r canlyniadau busnes lefel uchel yr ydym ni'n dymuno eu cyflawni gyda'n data. Maent yn nodi ein hymagwedd tuag at ddata a phennu sut y byddwn ni'n defnyddio data i'n helpu i gyflawni amcanion strategol lefel uchel ein sefydliad. Mae'r Canlyniadau Data Strategol yn dangos sut mae ein data a rheoli gwybodaeth yn sail i'n strategaeth gorfforaethol.

Dyma ein Canlyniadau Data Strategol:

- i. Rheoli a defnyddio data yn effeithiol i sicrhau diogelwch bwyd y DU – gan roi defnyddwyr wrth wraidd popeth yr ydym ni'n ei wneud.
- ii. Darparu data i gyflawni ein cyfrifoldeb statudol i ddiogelu, i hysbysu ac i addysgu'r cyhoedd am ddiogelwch bwyd.
- iii. Hybu ymddiriedaeth yn nata bwyd y DU a'r wybodaeth am ddiogelwch bwyd yn y parth cyhoeddus.
- iv. Hyrwyddo tryloywder ac effeithlonrwydd yn y llywodraeth a thu hwnt trwy ein hymrwymiad parhaus i ddata agored.
- v. Creu ymddiriedaeth a chynghreiriau gyda'n partneriaid sector cyhoeddus ac yn y diwydiant gan ddefnyddio ac aildefnyddio data yn helaeth, tra hefyd yn parhau i fod yn sensitif i faterion preifatrwydd personol a chorfforaethol.
- vi. Sicrhau arloesedd a gwerth trwy ddefnyddio data'n greadigol i ddod yn sefydliad sy'n cael ei yrru gan ddata a'r sefydliad gorau y gallwn fod.

Nodau'r Strategaeth Ddata

39. Rydym ni wedi diffinio Nodau ein Strategaeth Ddata fel yr amcanion penodol y byddwn ni'n ceisio eu gwireddu er mwyn cyflawni ein Canlyniadau Data Strategol lefel uchel. Mae'r nodau hyn yn cynnwys dod yn sefydliad sy'n cael ei yrru gan ddata a phencampwr tryloywder gan ein bod yn credu y bydd y camau gweithredu hyn yn gwneud y cyfraniad mwyaf at nodau strategol mwy yr Asiantaeth.
40. Mae Nodau ein Strategaeth Ddata'n mynegi sut y byddwn ni'n adeiladu gallu data datblygedig, gan gynnwys y sgiliau, y seilwaith a'r llywodraethiant sydd eu hangen i gyflawni'r canlyniadau strategol lefel uchel a'r effaith a ddiffinnir yn ein strategaethau sefydliadol a data.

I wireddu ein Gweledigaeth ar Ddata ac i gyflawni ein Canlyniadau Data Strategol, byddwn ni'n:

- i. Dod yn sefydliad sy'n cael ei yrru gan ddata (creu diwylliant data)
- ii. Datblygu ein hystad ddata¹
- iii. Gwella ein seilwaith data²
- iv. Cryfhau ein gallu data
- v. Aeddfedu ein llywodraethiant data ymhellach (gan gynnwys cyflawni cydymffurfiaeth GDPR)
- vi. Hyrwyddo tryloywder trwy Ddata Agored

¹ Ystad Ddata yw'r holl asedau data y mae sefydliad yn eu dal yn barhaol neu'n ysbeidiol yn ei holl storfeydd data (gan gynnwys cronfeydd data, ffeiliau electronig, dogfennau, delweddau, logiau, setiau data, cynnwys warysau data, llynnoedd data neu systemau rheoli cynnwys, hyd yn oed ffeiliau papur mewn cypyrddau ffeilio)

² Seilwaith data yw'r holl dechnoleg (caledwedd a meddalwedd) y mae sefydliad yn ei ddefnyddio (yn berchen arno neu'n rhentu trwy wasanaeth a reolir neu fel gwasanaeth cwmwl) i gasglu, dal, storio, prosesu, lledaenu, integreiddio, dadansoddi, cyflwyno, dychmygu, rheoli (creu copiau wrth gefn, adfer, dyblygu), llywodraethu a chael gwared ar ei ddata

Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Ddata

42. Mae Cynllun Gweithredu ein Strategaeth Ddata yn manylu ar gamau penodol y byddwn ni'n eu cymryd i gyflawni pob un o Nodau'r Strategaeth Ddata.
43. Er bod y camau a ddisgrifir isod yn eithaf penodol ac yn cael eu hystyried yn briodol ar hyn o bryd, mae'n bwysig bod ein Strategaeth Ddata yn hyblyg ac yn ymateb i newidiadau yn yr amgylchedd. Gall blaenoriaethau gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol newid, yn aml ar fyr rybudd, gan olygu bod angen newid strategaeth gorfforaethol yr ASB a'r newid a ddaw o ganlyniad i flaenoriaethau a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â data.
44. Felly, mae'n bwysicach canolbwyntio ar fyrddwn a chyfeiriad teithio cyffredinol y Strategaeth Ddata – sef adeiladu'r gallu data cyffredinol ar gyfer y dyfodol a chynyddu effeithiolrwydd ac arloesedd ein hamgylchedd data – nag ar gyrhaeddiad unrhyw set benodol o nodau. Oherwydd hynny, cyflwynir y Cynllun Gweithredu canlynol fel un cyfredol ond ei fod yn destun adolygiadau cyfnodol ac ailasesu'r nodau strategol a'r camau cysylltiedig.

Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Ddata:

Dod yn sefydliad sy'n cael ei yrru gan ddata (creu diwylliant data)

- a. Cynyddu llythrennedd data ar draws y sefydliad
- b. Hyrwyddo penderfyniadau sy'n cael eu gyrru gan ddata ar bob lefel
- c. Ymgysylltu'n weithredol â'r ddadl gyhoeddus ar foeseg data a hyrwyddo safbwynt yr Asiantaeth ar y pwnc
- d. Gweithredu Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer defnyddio data
- e. Datblygu cynllun arloesedd data cynaliadwy a pharodrwydd yn y dyfodol
- f. Datblygu cymhwysedd delweddu data i arddangos pŵer data
- g. Datblygu a dweud straeon sy'n dangos gwerth data ac adeiladu profiad yn ei ddefnyddio (gan ddechrau gyda'r Strategaeth Ddata)

Datblygu ystâd ddata'r ASB

- a. Adolygu a diffinio ein hanghenion gwybodaeth cyfredol o ystod o safbwyntiau busnes
- b. Deall ein hecosystem data ehangach (yr holl ddata a ddefnyddiwn yn rheolaidd, boed o'n daliad ni neu'n allanol – nad yw'n eiddo i ni)
- c. Datblygu/caffael setiau data newydd i gefnogi ein hanghenion gwybodaeth diwygiedig

- d. Datblygu'r gallu i reoli'r metadata (gwybodaeth am ddata)
- e. Cynyddu'r ailddefnydd o'n data ein hunain a data (agored) allanol
- f. Gwneud ein data yn haws i'w ddarganfod i ddefnyddwyr mewnol ac allanol

Gwella seilwaith data'r ASB (ar y cyd â TG)

- a. Dylunio pensaernïaeth ddata ar gyfer 'y dyfodol'
- b. Creu'r map ffordd i wireddu pensaernïaeth data y dyfodol
- c. Parhau i adeiladu seilwaith data y dyfodol yn unol â'r egwyddorion dylunio presennol ar gyfer Strategaeth TG/GDS (e.e. ailddefnyddio, ffynhonnell agored lle mae'n gwneud synnwyr, gan osgoi cloi'r gwerthwr, Cwmwl cyntaf ac ati)
- d. Parhau i drawsnewid hen gydrannau i'r seilwaith newydd
- e. Diffinio a chytuno ar broses esblygu seilwaith data i ychwanegu cydrannau newydd yn ôl yr angen

Cryfhau ein gallu data

- a. Diffinio'r gallu data sydd ei angen i gyflawni ein Canlyniadau Data Strategol
- b. Datblygu sgiliau'r Tîm Data i gydweddu â'r gallu data newydd
- c. Gweithio i hyrwyddo sgiliau data ar draws y sefydliad cyfan
- d. Hyrwyddo diwylliant hunangynhaliol mewn gwaith data ar draws yr Asiantaeth, gan alluogi'r Tîm Data i ganolbwyntio ar dasgau gwerth uchel
- e. Datblygu ein swyddogaeth Gwyddor Data a dod o hyd i ffyrdd i gynyddu ei heffaith
- f. Ymgysylltu â'r sefydliadau data blaenllaw (e.e. Sefydliad Alan Turing) a manteisio ar eu harbenigedd i ddatblygu ein dysgu ein hunain

Datblygu ein llywodraethiant data ymhellach

- a. Ymgorffori llywodraethiant data yn ein model rheoli gwybodaeth – diffinio rolau perchnogion data, stiwardiaid data a gwarchodwyr data
- b. Diffinio a chytuno ar Safonau Data sefydliadol a hyrwyddo'r broses o'u gweithredu
- c. Ymgorffori Safonau Data mewn fframwaith rheoli metadata (gwybodaeth am ddata) ehangach i gynyddu dealltwriaeth o ddata a'i ansawdd
- d. Cynyddu ymwybyddiaeth a lefel sgiliau staff o ran gwybodaeth a rheoli data a dadansoddeg
- e. Parhau i fonitro a churadu ein hystâd ddata gynyddol
- f. Datblygu Cynllun Gweithredu i gryfhau ein safbwynt diogelu data a sicrhau cydymffurfiaeth wirfoddol â'r Rheoliad Gwarchod Data

Hyrwyddo tryloywder trwy Ddata Agored

- a. Cyflawni ein huchelgais bod canran uchel o'n data yn cael ei gyhoeddi fel Data Agored
- b. Creu mecanweithiau cyhoeddi data cynaliadwy, gan sicrhau ymrwymiad gan berchnogion data i gyhoeddi'n barhaus ac adnewyddu setiau data yn amserol
- c. Hysbysebu'r data rydym ni'n ei gyhoeddi a hyrwyddo'r aildefnydd ohono
- d. Lle bo'n briodol, mynd ati i ddatblygu delweddiad data o'n setiau Data Agored i gynyddu eu heffaith
- e. Ymgysylltu â defnyddwyr allanol ein data, adeiladu cymunedau o ddiddordeb a chefnogi prosesau darganfod data ac ymdrechion ail-greu
- f. Cymryd rhan mewn digwyddiadau data cyhoeddus i wella enw da a dylanwad yr Asiantaeth yn y cymunedau perthnasol
- g. Eirioli tryloywder a Data Agored gyda'n partneriaid llywodraeth ac yn y diwydiant, a'u hannog i fod yn fwy agored ac i gyhoeddi rhagor o ddata